Rheolaeth Ariannol Ymarferol ar gyfer Busnesau sy'n Tyfu

Cyflwyniad

Ni wnaeth y rhan fwyaf o berchnogion busnes ddechrau busnes am eu bod eisiau treulio eu hamser yn edrych ar daenlenni, datganiadau ariannol, a rhagolygon.

Yn hytrach, fe wnaethant ddechrau busnes am fod ganddynt syniad da.

Wrth i fusnes dyfu, mae deall materion ariannol y busnes yn dod yn fwyfwy pwysig. Gall penderfyniadau ynghylch prisio, recriwtio, buddsoddi, trethiant a thwf effeithio'n sylweddol ar lwyddiant busnes.

Mae'r arweiniad hwn ar gyfer perchnogion busnesau newydd a busnesau sefydledig, ac mae'n cynnwys rhai o'r meysydd ariannol allweddol sy'n helpu busnesau i barhau i fod yn broffidiol, i reoli arian parod yn effeithiol, ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Rheoli Arian Parod

Mae elw'n Bwysig. Mae Arian Parod yn Hanfodol.

Gall busnesau sy'n gwneud elw ddal i redeg allan o arian parod.

Gall hyn ddigwydd am nifer o resymau, gan gynnwys cwsmeriaid sy'n cymryd gormod o amser i dalu, a lefelau stoc sy'n rhy uchel.

Mae deall sut mae arian parod yn symud trwy'ch busnes yn helpu i nodi lle gall y busnes fod dan bwysau, cyn i'r sefyllfa ddatblygu'n broblem.

Efallai y bydd arian parod busnesau wedi'i glymu mewn:

- Dyledwyr (Cwsmeriaid): Telerau credyd rhy hael neu heb eu rheoli.
- Stoc a Gwaith ar y Gweill: Dal gormod o stoc, neu beidio ag anfonebu gwasanaethau'n brydlon ar ôl danfon.
- Credydwyr (Cyflenwyr): Peidio â chael cyfrifon credyd gyda chyflenwyr allweddol, neu beidio â defnyddio'r telerau talu llawn (pan fo angen).

Noder: Mae'n bwysig talu eich cyflenwyr ar amser, a phan nad yw hyn yn bosibl, mae hi wastad yn well siarad i chi drafod y mater gyda nhw – gall hyn helpu i atal problem dros dro rhag mynd yn broblem barhaol.

Gwella Llif Arian Parod

Yn aml, gall gwelliannau bach wneud gwahaniaeth sylweddol:

- Anfonebu'n brydlon
- Monitro dyledwyr a mynd ar ôl cyfrifon sy'n hwyr
- Adolygu lefelau stoc yn rheolaidd

Peidiwch ag Anghofio Gwahaniaethau Tymhorol

Mae llawer o fusnesau'n profi uchafbwyntiau ac isafbwyntiau tymhorol. Gall deall pryd mae arian parod ar ei isaf eich helpu i gynllunio ymlaen llaw ac osgoi pwysau diangen.

Prisio

Pryd wnaethoch chi adolygu eich prisiau ddiwethaf?

Gall llawer o berchnogion busnes deimlo'n anghyfforddus wrth godi prisiau. Mae colli cwsmeriaid yn bryder yn aml.

Ar yr un pryd, mae costau busnes yn parhau i godi – pryniannau, cyflogau staff, gorbenion (‘overheads’), ac ati.

Os bydd eich prisiau'n aros yr un fath, bydd eich elw’n gostwng.

Mae'n Iawn Codi Pris Teg

Nid yw pob cwsmer yn dewis cyflenwr yn seiliedig ar bris yn unig.

Maent hefyd yn gwerthfawrogi eich gwasanaeth, ansawdd, dibynadwyedd, profiad ac enw da.

Adolygwch eich prisiau yn rheolaidd, a gwnewch yn siŵr eich bod yn cael pris teg am eich nwyddau neu wasanaethau.

Peidiwch ag Anghofio am Gostau

Dim ond un ochr i'r hafaliad yw prisio.

Mae hefyd yn werth adolygu costau cyflenwyr, tanysgrifiadau meddalwedd a gorbenion eraill yn rheolaidd i sicrhau bod y prisiau hynny'n parhau i fod yn deg ac yn cynrychioli gwerth da am arian.

Tyfu Eich Busnes

Mae'r rhan fwyaf o berchnogion busnes eisiau i'w busnes dyfu. Mae mwy o gwsmeriaid, mwy o waith a mwy o elw oll yn arwyddion cadarnhaol.

I dyfu, rhaid buddsoddi cyn elwa. Gall cyflogi staff, prynu offer neu gynyddu lefelau stoc oll greu costau ychwanegol ymhell cyn i'r incwm ychwanegol ddechrau dod i mewn.

Cyfalaf Gweithio

Cyfalaf gweithio yw'r arian sydd ei angen ar fusnes ar gyfer gweithrediadau o ddydd i ddydd – mae angen mwy ohono ar gwmni sy'n tyfu.

Cyn ceisio tyfu, mae'n werth ystyried sut y bydd hyn yn cael ei ariannu. Gall fod trwy ddefnyddio elw sydd wedi'i gadw, benthyca o'r banc, codi arian drwy asedau neu opsiynau cyllido eraill. Bydd y dull cywir yn amrywio yn ôl amgylchiadau unigol.

Cynllunio i Dyfu

Cyn ymrwymo i brosiect twf, mae'n werth treulio amser yn paratoi rhai rhagolygon ariannol. Gall deall proffidioldeb y prosiect a'r arian parod sydd ei angen i'w gefnogi helpu i osgoi unrhyw ddigwyddiadau cas annisgwyl nes ymlaen.

Nid yw'r broses ragolygon yn ymwneud â chael pob rhif yn iawn. Mae'n ymwneud â deall effaith ariannol penderfyniadau, nodi risgiau posibl, a sicrhau bod gan y busnes yr adnoddau sydd eu hangen arno i gefnogi ei gynlluniau.

Cyflogres

Cyflogi Staff

I lawer o berchnogion busnes, daw pwynt pan nad oes digon o oriau yn y dydd. Gall cyflogi staff helpu i ysgafnhau'r llwyth gwaith, gwella'ch cynnig gwasanaeth, a chreu'r gallu i dyfu.

Daw cyfrifoldebau ychwanegol yn sgil cyflogi pobl, gan y bydd angen i chi sicrhau bod staff yn cael eu talu'n iawn, bod y didyniadau ar gyfer trethi a chyfraniadau pensiwn yn gywir, a bod cyflwyniadau cyflogres yn cael eu gwneud ar amser.

Mae'n werth cofio hefyd bod gweithiwr yn costio mwy na dim ond ei gyflog. Mae cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiwn cyflogwr yn ychwanegu at y gost, a gall hyfforddiant a chostau cysylltiedig eraill adeiladu'n gyflym.

Ystyriaethau eraill

Yn ogystal â sicrhau bod rhwymedigaethau cyflogres a phensiwn yn cael eu bodloni, bydd cyflogwyr fel arfer angen yswiriant priodol a manylion cyflogaeth ysgrifenedig, a dylent ystyried polisïau gweithle addas a llawlyfr staff. Gall gofyn am gyngor gan

weithiwr proffesiynol Adnoddau Dynol sicrhau bod y busnes wedi'i baratoi'n dda, a darparu sylfaen gadarn ar gyfer twf yn y dyfodol.

Cyn Cyflogi eich Gweithiwr Cyntaf

Dylech*:*

- Ddeall y gost ariannol lawn.
- Cynllunio ar gyfer prosesu cyflogres a gwneud cyflwyniadau ar amser.
- Paratoi ar gyfer rhwymedigaethau cofrestru awtomatig pensiynau.
- Sicrhau eich bod yn cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau cyflogaeth.
- Paratoi contractau cyflogaeth a dogfennau polisi'r cwmni.

Meddalwedd a Gwybodaeth Rheoli

Gwneud i'ch Rhifau Weithio i Chi

Mae'r rhan fwyaf o fusnesau bellach yn defnyddio meddalwedd cyfrifeg i gofnodi incwm a gwariant, rheoli anfonebau a bodloni eu rhwymedigaethau cydymffurfio.

Mae'r gwir fudd o ddefnyddio meddalwedd yn dod o'r wybodaeth y gall meddalwedd ei darparu am eich perfformiad ariannol.

Mae cael mynediad at wybodaeth amserol a chywir yn medru helpu perchnogion busnes i ddeall sut mae'r busnes yn perfformio a nodi materion bach cyn iddynt ddatblygu'n broblemau mawr.

Cadwch Bethau'n Syml

Nid oes angen i wybodaeth reoli fod yn gymhleth.

Bydd buddsoddi amser i ddylunio adroddiadau sy'n ateb eich cwestiynau'n uniongyrchol yn cadw'r wybodaeth yn berthnasol.

Mae adroddiad misol syml sy'n dangos y niferoedd a'r tueddiadau allweddol yn aml yn fwy gwerthfawr na thudalennau diddiwedd o wybodaeth llai perthnasol.

Trethiant

Deall Eich Rhwymedigaethau Treth

Mae gan bob busnes rwymedigaethau treth. Bydd y trethi sy'n berthnasol yn amrywio o fusnes i fusnes, ond gallant gynnwys:

- Treth Gorfforaeth
- TAW

- PAYE ac Yswiriant Gwladol
- Treth Incwm

Gall deall pa drethi sy'n berthnasol i'ch busnes, pryd y maent yn ddyledus, a sut maent yn cael eu cyfrifo helpu gyda chyllidebu a rheoli llif arian parod.

Rhoi Arian o'r Neilltu

Nid yw cael digon o arian yn y banc bob amser yn golygu bod arian parod dros ben ar gael i'w wario neu ei dynnu o'r cyfrif. Efallai y bydd angen rhai peth o'r arian hwnnw ar gyfer taliadau treth yn y dyfodol.

Mae trethi ar elw fel arfer yn cael eu talu misoedd lawer ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ac yn aml nid yw busnesau yn llwyddo i gyllidebu'n ddigonol ar gyfer rhwymedigaethau treth yn y dyfodol.

A yw eich Strwythur Busnes yn dal i fod yn Iawn?

Wrth i fusnesau dyfu a newid, efallai y byddai'n werth adolygu a yw'r strwythur busnes presennol yn parhau i fod yn briodol.

Mae gan unig fasnachwyr, partneriaethau a chwmnïau cyfyngedig wahanol oblygiadau treth, cyfreithiol a gweinyddol. Er bod treth yn ystyriaeth bwysig, ni ddylai fod yr unig ffactor wrth benderfynu ar eich strwythur cyfreithiol gorau.

Cynllunio i Ymadael

Meddwl am y Dyfodol

Mae'r rhan fwyaf o berchnogion busnes yn treulio amser yn meddwl am sut i ddechrau a thyfu busnes, ond mae llai yn treulio amser yn ystyried sut y byddant yn camu i ffwrdd ohono yn y pen draw.

Efallai y bydd hyn flynyddoedd lawer i ffwrdd, ond gall y penderfyniadau a wneir heddiw gael effaith ar yr opsiynau sydd ar gael yn y dyfodol.

Llwybrau Ymadael

Mae sawl ffordd y gall perchennog busnes ddewis gadael busnes, gan gynnwys:

- Gwerthu'r busnes
- Ei drosglwyddo i aelodau'r teulu
- Y rheolwyr yn prynu'r busnes
- Ymddiriedolaethau Perchnogaeth Gweithwyr
- Dirwyn y busnes i ben

Bydd yr opsiwn mwyaf priodol yn wahanol ar gyfer pob busnes.

Paratoi i Ymadael

Waeth beth fo'r llwybr ymadael, mae paratoi ar gyfer ymadael yn bwysig ac weithiau yn cymryd blynyddoedd lawer. Mae'r meysydd i ganolbwyntio arnynt yn cynnwys:

- Cofnodion ariannol cywir a llwybr archwilio clir
- Systemau a phrosesau dibynadwy
- Gwytnwch busnes (llai o ddibyniaeth ar un cwsmer, cynnyrch neu wasanaeth)
- Strwythur rheoli (dibyniaeth gyfyngedig ar un unigolyn)

Gwybodaeth Bellach

Gall rhedeg busnes fod yn heriol ac yn aml nid oes un ateb cywir. Bwriad y wybodaeth yn yr arweiniad hwn yw darparu man cychwyn ac amlygu rhai o'r meysydd y gallai perchnogion busnes fod yn dymuno eu hystyried wrth i'w busnes ddatblygu.

Williams Denton

Mae Williams Denton wedi bod yn cefnogi busnesau ledled gogledd Cymru ers dros 100 mlynedd. Rydym yn darparu ystod eang o wasanaethau cyfrifeg, treth, cyflogres a chyngor busnes i fusnesau o bob maint.

Cysylltu â ni

Parc Menai, Bangor
bangor@williamsdenton.co.uk
01248 670370

Sgwâr y Drindod, Llandudno
llandudno@williamsdenton.co.uk
01492 877478

Am arweiniad pellach, taflenni ffeithiau ac adnoddau busnes, ewch i https://www.williamsdenton.co.uk/

Mae'r arweiniad hwn yn darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac ni ddylid ei drin fel cyngor proffesiynol. Dylid cael cyngor priodol cyn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar amgylchiadau unigol.